# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Fusion Dentistry, Caerdydd

Dyddiad yr arolygiad: 23 Ionawr 2018

Dyddiad cyhoeddi: 24 Ebrill 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Y Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn: 0300 062 8163**

**E-bost: hiw@gov.wales**

**Ffacs: 0300 062 8387**
**Gwefan: www.agic.org.uk**



ISBN Digidol 978-1-78903-911-5



© Hawlfraint y Goron 2018

# Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom ........................................ 5

2. Crynodeb o'n harolygiad ........................................ 6

3. Yr hyn a ganfuom ........................................ 7

Ansawdd profiad y claf ........................................ 8

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ........................................ 12

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth ........................................ 18

4. Beth nesaf? ........................................ 21

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol ........................................ 22

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad . 23

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ........................................ 24

Atodiad C – Cynllun gwella ........................................ 25

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn**
- **Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol**

# Ein blaenoriaethau

**Ein nod trwy ein gwaith yw:**

| | |
|---|---|
| **Darparu sicrwydd:** | **Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Fusion Dentistry yn Abton House, Wedal Road, Caerdydd, CF14 3QX, ar 23 Ionawr 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Bu AGIC yn archwilio sut roedd y practis yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth fod Fusion Dentistry yn bodloni'r safonau angenrheidiol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Canfuom fod cleifion yn cael eu trin â pharch, bod gan y practis brosesau priodol ar waith i sicrhau bod y cyfarpar yn ddiogel i'w ddefnyddio, a bod ganddo amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau i sicrhau y cyflwynir gofal mewn ffordd ddiogel ac effeithiol.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperid
- Roedd yr ardaloedd clinigol a'r ardaloedd nad oeddent yn glinigol yn lân ac yn daclus ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda, gan ddarparu man croesawgar, hamddenol a chartrefol unigryw i gleifion dderbyn triniaeth ynddo
- Roedd triniaethau'n cael eu darparu mewn tîm deintyddol amlddisgyblaethol, gan roi llwybr clinigol effeithiol, wedi'i gynllunio'n dda i gleifion
- Roedd dogfennau a gwybodaeth ar gael i ddangos bod cyfarpar pelydr-X a dadheintio yn cael ei ddefnyddio gyda’r nod o hyrwyddo diogelwch y staff a’r cleifion
- Dywedodd y staff wrthym fod cyfathrebu yn y tîm yn dda a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan dîm ehangach y practis

Rydym yn argymell y gallai’r gwasanaeth wella’r canlynol:

- Roedd angen diweddaru rhai polisïau a gweithdrefnau
- Dylai'r practis wneud trefniadau ar gyfer adolygiadau clinigol gan gymheiriaid
- Roedd angen trefniadau mwy cadarn ar gyfer nodi a chofnodi anghenion hyfforddiant staff

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Practis deintyddol sy’n darparu gwasanaethau preifat yn unig yw Fusion Dentistry.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys technegydd deintyddol clinigol,[1] tri deintydd, hylenydd, un nyrs gymwys ac un dan hyfforddiant, un derbynnydd, a rheolwr practis.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau deintyddol preifat, yn bennaf yn cynnig deintyddiaeth gosmetig a mewnblaniadau deintyddol.

[1] Gweithwyr proffesiynol gofal deintyddol yw technegwyr deintyddol clinigol, ac maent wedi'u hyfforddi ac yn gymwys i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau deintyddol yn uniongyrchol i gleifion.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Ar y cyfan, canfuom fod y practis yn gweithio'n galed i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel a phrofiad cadarnhaol i'r cleifion.

Gwelsom fod cleifion yn cael eu trin ag urddas, parch a charedigrwydd gan d**îm y practis.** Roedd y cleifion a ddarparodd sylwadau yn nodi eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperid gan y practis.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 12 holiadur. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *"Yn fy marn i, mae'r gwasanaeth yn wych"*
>
> *"Staff hyfryd – cyfeillgar iawn, yn brydlon bob tro, ac rwyf wedi cael fy nhrin yn dda gan y staff"*
>
> *"Rydw i bob amser wedi derbyn gofal ardderchog"*

### Cadw'n iach

Gwelsom fod gan y practis amrywiaeth o daflenni gwybodaeth i hybu iechyd yn yr ardal aros yn cyfeirio'n benodol at y triniaethau a gynigir ganddo. Diben hyn oedd annog y cleifion i ofalu am eu hiechyd a'u hylendid eu hunain.

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw ynghylch sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Roedd arwyddion 'Dim ysmygu' drwy gydol y practis, a oedd yn cadarnhau bod pwyslais ar gydymffurfio â deddfwriaeth eiddo di-fwg.

### Gofal ag urddas

Gwelsom staff yn siarad â chleifion mewn modd cyfeillgar, urddasol a phroffesiynol. Roedd y staff yn dîm bach a chyfeillgar a gwelsom eu bod yn

rhyngweithio â chleifion mewn modd cwrtais. Yn ddieithriad, roedd pob claf yn cytuno ei fod yn teimlo ei fod wedi cael ei drin â pharch wrth ymweld â'r practis.

Dywedodd y practis wrthym fod ymgynghoriadau cychwynnol â chleifion ynghylch eu cynlluniau triniaeth yn cael eu cynnal yn breifat bob tro – ac roedd y lle a oedd ar gael yn amgylchedd y practis yn caniatáu ar gyfer hynny.

### Gwybodaeth i gleifion

Roedd y practis yn darparu amrywiaeth o driniaethau deintyddol ar gyfer cleifion preifat yn unig, yn bennaf yn cynnig gwasanaethau cosmetig a mewnblaniadau deintyddol. Roedd gwybodaeth am brisiau triniaeth wedi'i harddangos yn y dderbynfa. Roedd hyn yn golygu bod gan gleifion fynediad rhwydd at wybodaeth am faint y gallai eu triniaeth gostio.

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur fod cost eu triniaeth bob amser yn cael ei hegluro iddynt cyn iddynt dderbyn y driniaeth, a chytunodd mwyafrif helaeth eu bod yn deall sut y cyfrifwyd cost eu triniaeth.

Yn ddieithriad, dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod wedi derbyn gwybodaeth am eu triniaeth ddeintyddol, gan gynnwys yr opsiynau triniaeth oedd ar gael. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus ynghylch eu triniaeth.

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur wrthym ei fod yn teimlo'n rhan o unrhyw benderfyniadau a wnaed ynghylch ei ofal deintyddol, i’r graddau yr oedd yn dymuno.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod modd iddynt siarad â staff yn eu hiaith o ddewis, gan gynnwys y rhai a ddywedodd eu bod yn siarad Cymraeg.

## Gofal amserol

Canfuom fod y practis yn gwneud ymdrechion i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Disgrifiodd staff broses ar gyfer hysbysu cleifion am unrhyw oedi i amser eu hapwyntiad.

Roedd gwasanaeth y tu allan i oriau ar gael i gleifion pe bai angen triniaeth ddeintyddol frys arnynt y tu allan i oriau. Roedd y rhif ffôn ar gyfer y gwasanaeth y tu allan i oriau ar gael ar beiriant ateb y practis. Dywedwyd wrthym fod y gwasanaeth y tu allan i oriau'n anfon e-bost i'r practis ar ôl derbyn galwad ffôn, ac yna bydd y practis yn mynd i'r afael â'r ymholiad. Dywedwyd

wrthym fod y broses hon yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd yn dilyn adborth gan gleifion ynghylch hygyrchedd gwasanaethau y tu allan i oriau, yn enwedig ar benwythnosau. Dywedodd pedwar claf a gwblhaodd holiadur wrthym nad oeddent yn gwybod sut i gael mynediad i'r gwasanaeth y tu allan i oriau.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwnaeth yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur gadarnhau bod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth. Gwnaethom archwilio sampl o gofnodion cleifion a chanfuom fod tystiolaeth o gynllunio triniaeth ac opsiynau triniaeth yn cael eu cofnodi'n gyson yn y cofnodion.

### Hawliau pobl

Roedd y dderbynfa, yr ystafell aros, yr ystafell ymlacio a'r ystafell driniaeth ar lawr daear y practis. Roedd ramp yn cynnig mynediad i'r practis, sy'n golygu bod cleifion ag anawsterau symudedd, neu'r rhai sy'n defnyddio cadair olwyn, yn gallu cael mynediad i'r practis. Roedd gan y practis un ystafell driniaeth ac roedd hi'n hygyrch. Roedd toiled sy'n addas i bobl mewn cadeiriau olwyn hefyd ar gael i'r cleifion ei ddefnyddio.

### Gwrando a dysgu o adborth

Gwelsom fod gan y practis weithdrefn gwyno ysgrifenedig. Roedd gwybodaeth i gleifion am sut i leisio pryder (cwyn) wedi'i harddangos yn y dderbynfa ac roedd wedi'i chynnwys ar wefan y practis.

Gwnaethom argymell bod angen diweddaru'r weithdrefn gwyno i ddileu'r cyfeiriad at rôl AGIC mewn cwynion ac i ddiweddaru manylion cyswllt AGIC.

Nid oedd y practis wedi derbyn unrhyw gwynion ers agor, ond disgrifiodd y staff broses briodol ar gyfer cofnodi, monitro a mynd i'r afael â chwynion petai un yn cael ei derbyn. Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn gwybod sut i wneud cwyn am y gwasanaeth a dderbynnir yn y practis.

Gwelsom fod cleifion yn gallu darparu adborth ar y gwasanaethau a ddarperir drwy flwch sylwadau. Dywedodd y practis wrthym mai ychydig iawn o sylwadau roedd wedi'u derbyn drwy'r broses hon. Efallai yr hoffai'r practis ystyried ffyrdd gwahanol o gael adborth gan gleifion i helpu i annog cleifion i fynegi eu barn ar y gwasanaethau a dderbynnir ganddynt. Cytunodd perchennog y practis i wneud hyn.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis ddiweddaru'r weithdrefn gwyno o ran y wybodaeth am AGIC.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy’n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Canfuom fod y practis yn darparu gofal diogel ac effeithiol i’r cleifion. Roedd safle’r practis yn amlwg wedi ei gynnal mewn cyflwr da, yn fewnol ac yn allanol.

Dangoswyd proses drwyadl ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol.

Roedd dogfennau a gwybodaeth ar gael i ddangos bod cyfarpar pelydr-X a dadheintio yn cael ei ddefnyddio’n ddiogel.

Roedd angen diweddaru'r polisi diogelu i blant ac oedolion.

Awgrymwyd cyflwyno proses ar gyfer adolygiadau clinigol gan gymheiriaid.

Roedd angen rhai gwelliannau i wella cysondeb wrth adrodd ar belydrau-X.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Ar y cyfan, roeddem o'r farn bod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld â'r practis. Canfuom fod y practis wedi cael ei gynnal a'i gadw i safon uchel iawn y tu mewn a'r tu allan a bod yr ystafell driniaeth yn lân, yn daclus ac yn drefnus. Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur o’r farn bod y practis deintyddol yn lân iawn.

Roedd cyfarpar diogelwch tân ar gael mewn lleoliadau amrywiol o amgylch y practis a gwelsom fod hwn wedi cael ei wasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf i sicrhau ei fod yn gweithio'n gywir.

Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy wedi cael eu cynnal ar gyfarpar trydanol y practis o fewn y 12 mis diwethaf, i helpu i sicrhau bod yr offer yn ddiogel i'w defnyddio.

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer cludo a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gynhyrchwyd gan y practis. Gwelsom fod gwastraff peryglus yn cael ei storio'n ddiogel wrth aros i gael ei gasglu gan y cwmni contractwyr. Gosodwyd offer didoli amalgam er mwyn tynnu gronynnau amalgam (math o sylwedd deintyddol sy'n cynnwys mercwri) a geir mewn llenwadau deintyddol o ddŵr gwastraff cyn cael gwared arnynt yn ddiogel. Roedd trefniadau ar waith ar gyfer casglu gwastraff nad yw'n beryglus (cartref).

## Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis ystafell ddadheintio llawn cyfarpar a oedd yn bodloni'r egwyddorion a amlinellwyd yn nogfen polisi a chanllaw Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (WHTM 01-05) (Diwygiad 1).[2]

Gwelsom fod y cyfarpar a'r cabinetau dadheintio yn yr ystafell ddadheintio mewn cyflwr gweledol gwych. Roedd arwynebau gwaith a'r llawr yn hawdd eu glanhau er mwyn hwyluso glanhau trwyadl a lleihau croes-heintio.

Roedd gan y practis ddefnydd o un awtoclaf.[3] Gwelsom fod arolygiad yr awtoclaf yr un wythnos ag arolygiad AGIC, a gwelsom gadarnhad fod hwn wedi cael ei drefnu a'i fod yn mynd i gael ei gynnal o fewn amserlen briodol. Gwelsom fod gwiriadau dyddiol yn cael eu cynnal a bod llyfrau cofnodion yn cael eu cadw, fel yr argymhellir gan Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, ar gyfer profion ar offer glanhau a sterileiddio, i ddangos eu bod yn parhau i fod yn ddiogel i'w defnyddio.

---

[2] Mae'r ddogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn darparu canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

[3] Siambr pwysedd yw peiriant awtoclaf a ddefnyddir i sterileiddio offer a chyflenwadau trwy orfodi ager dirlawn pwysedd uchel arnynt.

Dangosodd y staff broses ddadheintio drylwyr, a gwelsom dystysgrifau i ddangos bod y staff wedi mynychu hyfforddiant ar ddadheintio. Roedd yr offer yn cael eu cadw mewn bagiau wedi'u selio er mwyn atal croes-heintio.

Dywedwyd wrthym fod archwiliad rheoli heintiau yn y broses o gael ei gynnal. Gwnaethom atgoffa perchennog y practis o'r gofynion i gynnal y rhain yn rheolaidd. Gwelsom fod y practis yn cynnal archwiliadau hylendid dwylo rheolaidd i helpu i nodi unrhyw feysydd i'w gwella.

### Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod cyfarpar a chyffuriau ar gael i'w defnyddio pe bai argyfwng gyda chlaf (llewygu). Gwelsom hefyd gofnodion yn dangos bod y cyffuriau a'r cyfarpar wedi cael eu gwirio'n rheolaidd a'u bod o fewn eu dyddiadau dod i ben.

Gwelsom gofnodion i ddangos bod y rhan fwyaf o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant cardio-pwlmonaidd yn y deuddeng mis diwethaf. Anfonwyd un dystysgrif, nad oed ar gael ar ddiwrnod yr arolygiad, at AGIC ar y diwrnod wedyn. Cafodd tystysgrif ar gyfer hyfforddiant cardio-pwlmonaidd, a gwblhawyd ar y diwrnod ar ôl yr arolygiad ar gyfer aelod arall o staff, hefyd ei hanfon at AGIC. Gwneir argymhelliad ynghylch cynnal a chadw cofnodion hyfforddiant staff dan adran rheolaeth ac arweinyddiaeth yr adroddiad.

### Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Roedd gan y practis weithdrefn ar waith i hyrwyddo a diogelu lles plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu sydd mewn perygl. Roedd angen diweddaru'r gweithdrefnau i gynnwys manylion cyswllt timau diogelu'r cyngor lleol petai eu hangen. Gwnaethom gynghori perchennog y practis i ddileu'r cyfeiriad at ataliaeth yn y weithdrefn.

Cadarnhaodd rheolwr y practis fod yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion. Fodd bynnag, nid oeddem yn gallu gweld tystysgrifau ar gyfer pob aelod o staff. Atgoffwyd y practis y dylai tystiolaeth o hyfforddiant fod ar gael i'w harchwilio gan AGIC a bod yn rhaid i'r staff gael yr hyfforddiant diweddaraf ar ddiogelu plant ac oedolion yn barhaus.

Roedd gan y practis bolisi chwythu'r chwiban ar waith yn nodi'r camau i'w cymryd a'r sefydliadau perthnasol i gysylltu â hwy petai gan staff y practis unrhyw bryderon.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae’n rhaid i’r practis ddiweddaru'r polisïau diogelu plant ac oedolion.

### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol (yr ystafell driniaeth) yn y practis a nodi eu bod yn lân ac yn daclus ac yn cael eu cynnal a'u cadw at safon ragorol. Roedd modd glanhau arwynebau a lloriau yn yr ystafell driniaeth yn hawdd er mwyn atal croes-heintio.

Daethom i’r casgliad fod gan y practis drefniadau ar waith i ddefnyddio offer radiograffeg (pelydr-X) yn ddiogel. Mae hyn am fod y dogfennau a'r wybodaeth ofynnol ynglŷn â defnyddio’r offer pelydr-X yn ddiogel ar gael ac yn gyfredol.

Gwelsom dystysgrifau hyfforddi a oedd yn dangos bod y staff clinigol perthnasol wedi diweddaru eu hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio a’u bod yn bodloni'r canllawiau a amlinellir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Gwelsom fod archwiliadau o ansawdd delweddau pelydr-X wedi cael eu cwblhau'n rheolaidd fel rhan o'r gwaith monitro ar gyfer sicrhau ansawdd. Mae'r archwiliadau hyn yn nodi problemau posibl wrth gynnal sganiau pelydr-X, ac yn dangos lle y dylid gwneud gwelliannau os oes angen.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd y practis yn cynnal rhai archwiliadau i fonitro ansawdd a diogelwch y gofal a’r driniaeth a ddarperid i gleifion. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau hylendid dwylo ac archwiliadau radiograffeg. Gwnaethom argymell y dylai'r practis ehangu amrywiaeth yr archwiliadau, i helpu i sicrhau y bodlonir safonau arfer gorau'n gyson. Cytunodd perchennog y practis i wneud hyn.

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Nid oedd gan y practis broses ar waith i gynnal adolygiadau gan gymheiriaid,[4] a fyddai'n cefnogi'r staff o bosib wrth ddatblygu gwelliannau yn y practis. Gwnaethom argymell i'r practis y dylent roi proses ar waith i gynnal adolygiadau gan gymheiriaid fel ffordd o nodi meysydd i wella arfer ynddynt. Cytunodd y practis i wneud hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis weithredu proses ar gyfer cynnal adolygiadau clinigol gan gymheiriaid.

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd cofnodion cleifion yn cael eu storio a'u cynnal a'u cadw'n electronig a gwelsom fod prosesau addas ar waith i sicrhau y cynhelid diogelwch yr wybodaeth.

### Cadw cofnodion

Gwnaethom ystyried sampl o gofnodion deintyddol cleifion er mwyn asesu ansawdd y cofnodion. Roedd y nodiadau a wnaed yn fanwl ac yn dangos bod gofal a thriniaeth wedi cael eu cynllunio er mwyn hyrwyddo diogelwch a lles cleifion.

Yn unol â gofynion Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, roedd y rhesymau dros ddelweddau pelydr-X a'r canfyddiadau o'u herwydd wedi'u cofnodi gan mwyaf. Gwnaethom argymell y dylai'r cyfiawnhad dros ddelweddau pelydr-X fod wedi'i ddiffinio'n fwy clir, ac y dylid adrodd ar y canfyddiadau clinigol yn gyson.

Yn ogystal, nid oedd graddau delweddau pelydr-X yn cael eu cofnodi'n gyson a chytunodd perchennog y practis i fynd i'r afael â hyn.

---

[4] Mae adolygu gan gymheiriaid yn un o'r “safonau aur” yn y maes gwyddonol, sef proses sy'n caniatáu i weithwyr proffesiynol gofal iechyd (“cymheiriaid”) werthuso ansawdd gwaith gweithwyr proffesiynol eraill. Gwneir hyn gyda'r nod o sicrhau bod eu hymarfer yn drylwyr ac yn manteisio ar ymchwil flaenorol gyda'r bwriad o ddarparu'r gofal a thriniaethau gorau posibl.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod cyfiawnhad delweddau pelydr-X a chanfyddiadau clinigol bob tro yn cael eu cofnodi'n llawn mewn dogfennau. Mae’n rhaid i radd delweddau pelydr-X hefyd gael ei chofnodi'n gyson.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat a'r safonau proffesiynol perthnasol.*

Y technegydd deintyddol clinigol oedd yn berchen ar y practis ac yn cael cefnogaeth gan dîm bach a chyfeillgar o staff. Gwelsom fod arlwy o bolisïau perthnasol ar waith gyda'r nod o sicrhau diogelwch staff a chleifion.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan uwch-staff y practis a'u cydweithwyr.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Y technegydd deintyddol clinigol sy'n berchen ar Fusion Dentistry ac fe'i cefnogir gan reolwr y practis, tri deintydd, nyrs ddeintyddol, nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant, hylenydd rhan-amser, a derbynnydd. Perchennog y practis sy'n gyfrifol am reoli'r practis ar hyn o bryd, gyda pheth cefnogaeth feunyddiol yn cael ei darparu gan y tîm nyrsio a gweinyddol. Gwelsom fod y tîm yn ymrwymedig ac yn frwdfrydig dros y gwasanaeth ac yn rhagweithiol yn eu hymagwedd at reoli'r practis. Lle y gwnaethom nodi meysydd i'w gwella, dangosodd tîm y practis barodrwydd ac ymroddiad i fynd i'r afael â'r rhain yn brydlon.

Gwelsom fod y staff yn bendant ac yn wybodus ynghylch eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau. Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo bod cyfathrebu da o fewn y practis. Gwelsom fod cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

Gwelsom fod amrediad cynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau ar waith gyda'r nod o sicrhau diogelwch staff a chleifion. Dywedwyd wrthym fod y staff yn cael gwybod ar lafar am unrhyw newidiadau i bolisïau neu weithdrefnau, ynghyd â chopi diweddar o'r polisi neu'r weithdrefn i'w ddarllen. Gwnaethom argymell y dylai dyddiadau a/neu rifau fersiynau gael eu hychwanegu at bolisïau a

gweithdrefnau sydd wedi'u diweddaru, fel y gall y staff gael yr wybodaeth ddiweddaraf.

## Staff ac adnoddau

### Y gweithlu

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod staff wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w swyddi. Gwnaeth y staff gadarnhau hefyd eu bod yn cael eu cefnogi a'u hannog gan y tîm rheoli i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi. Fel y dywedwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, rhaid i berchennog y practis roi system briodol ar waith i sicrhau bod y practis yn cynnal gofynion hyfforddiant a thystysgrifau hyfforddiant y staff, i gadarnhau cydymffurfiaeth â gofynion datblygiad proffesiynol parhaus y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.[5] Cytunodd perchennog y practis i fynd i'r afael â hyn.

Canfuom fod deintyddion a staff nyrsio wedi eu cofrestru i ymarfer gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a bod yswiriant indemniad ar waith ganddynt.

Roedd cofnodion ar gael a oedd yn dangos bod y staff wedi eu himiwneiddio rhag hepatitis B, er mwyn amddiffyn cleifion a hwythau rhag cael eu heintio. Gwnaethom argymell y dylai perchennog y practis geisio cyngor ychwanegol ynghylch aelod o staff am lefel yr imiwnedd i hepatitis B a gofnodwyd. Cytunodd perchennog y practis i wneud hyn.

Nid oeddem yn gallu gweld tystysgrifau cofrestru AGIC ar gyfer yr holl staff clinigol perthnasol a oedd yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat, fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. Tynnwyd sylw rheolwr y practis at hyn ar ddiwrnod yr arolygiad, a chawsom wybod bod y practis wrthi'n mynd i'r afael â hyn oherwydd bod y staff clinigol yn y broses o gyflwyno cais am dystysgrifau a oedd yn benodol i'r practis hwn. Rhaid arddangos y tystysgrifau sydd ar gael. Gwelsom wiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer yr holl staff clinigol sy'n gweithio yn y practis.

---

[5] https://www.gdc-uk.org/professionals/cpd/requirements

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i berchennog y practis sicrhau bod proses gadarn ar waith i nodi gofynion hyfforddiant staff ac i sicrhau bod ardystiadau hyfforddiant yn cael eu cynnal gan y practis.

Rhaid arddangos tystysgrifau cofrestru AGIC yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat.

# 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae’r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a uwchgyfeiriwyd ac a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu o'r camau y mae’n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau’n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rydym yn rhoi rhybudd cyn cynnal arolygiad o bractis deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn derbyn hyd at 12 wythnos o rybudd cyn arolygiad. Mae hyn fel y bydd trefniadau yn gallu cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer a bod yr arolygiad yn peri cyn lleied o amhariad â phosibl i gleifion.

Mae adborth yn cael ei roi i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a lefel strategol.

Bydd unrhyw ddeintydd yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn destun darpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Mae manylion pellach am sut mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a gwasanaethau gofal iechyd annibynnol ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn. | | | |

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Fusion Dentistry

## Dyddiad yr arolygiad: 23 Ionawr 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw broblemau sicrwydd ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn. | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth:

### Enw (llythrennau bras):

### Swydd:

### Dyddiad:

## Atodiad C – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Fusion Dentistry

## Dyddiad yr arolygiad: 23 Ionawr 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Rhaid i'r practis ddiweddaru'r weithdrefn gwyno o ran y wybodaeth am AGIC. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)<br>Rheoliad 15 (4) (a) | Mae paragraff yn nodi "Os hoffech gael cymorth neu gyngor ynghylch eich cwyn, gallwch gysylltu ag AGIC" wedi cael ei ddileu o'r weithdrefn gwyno ac mae'r holl hen gopïau wedi cael eu rhwygo a'u disodli. | Michael Fuse | Cwblhawyd ar 15.02.18 |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Mae'n rhaid i'r practis ddiweddaru'r polisïau | Rheoliadau Deintyddiaeth | Mae'r weithdrefn wedi'i diweddaru i gynnwys manylion cyswllt cyfredol ar | Michael Fuse | Cwblhawyd |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| diogelu plant ac oedolion. | Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)<br>Rheoliadau 14 (1) (b) a (2) | gyfer y timau diogelu lleol. Mae'r paragraff yn y polisi sy'n sôn am ataliaeth wedi cael ei ddileu. | | ar 15.02.18 |
| Dylai'r practis weithredu proses ar gyfer cynnal adolygiadau clinigol gan gymheiriaid. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)<br>Rheoliadau 14 (1) (b) ac 14 (2) | Rydym yn gweithredu archwiliad clinigol ac adolygiad gan gymheiriaid ar gadw cofnodion clinigol drwy'r Adran Ddeintyddol Ôl-raddedig yn Ysbyty Athrofaol Cymru. | Michael Fuse | I'w gwblhau erbyn 31.05.18 |
| Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod cyfiawnhad delweddau pelydr-X a chanfyddiadau clinigol bob tro yn cael eu cofnodi'n llawn mewn dogfennau. Mae'n rhaid i radd pelydr-X hefyd gael ei chofnodi'n gyson. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)<br>Rheoliad 14 (1) (b) | Rydym wedi newid y profforma ar gyfer pelydrau-X ar feddalwedd Exact i gynnwys cyfiawnhad, gradd, a chofnodi canfyddiadau clinigol.<br>Trafodwyd hyn â'r deintyddion i sicrhau ei fod yn cael ei gwblhau bob tro. | Michael Fuse | Cwblhawyd ar 15.02.18 |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Rhaid i berchennog y practis sicrhau bod proses gadarn ar waith i nodi gofynion hyfforddiant staff ac i sicrhau bod ardystiadau hyfforddiant yn cael eu cynnal gan y practis. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)<br>Rheoliad 14 (1) (b) | Mae gan yr holl staff clinigol gynllun datblygu personol bellach, fel sy'n ofynnol gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, a fydd yn cael ei ddefnyddio i sicrhau bod y staff yn cael eu hyfforddi'n briodol iddyn nhw eu hunain ac i'r busnes.<br>Mae'r holl staff bellach yn ymwybodol bod angen i unrhyw dystysgrifau hyfforddiant maent yn eu derbyn gael eu llungopïo a'u rhoi yn eu ffeil staff yn y practis.<br>Bydd defnyddio'r cymhwysiad iComply yn sicrhau bod yr holl ardystiadau'n cael eu gwirio'n flynyddol. | Michael Fuse | Cwblhawyd ar 15.02.18 |
| Rhaid arddangos tystysgrifau cofrestru AGIC yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)<br>Rheoliad 4 | Mae'r holl dystysgrifau AGIC bellach yn cael eu harddangos fel sy’n ofynnol. | Michael Fuse | Cwblhawyd ar 15.02.18 |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

## Enw (llythrennau bras):Michael Fuse

## Swydd: Technegydd deintyddol clinigol

## Dyddiad:15 Chwefror 2018